



Ardal Cymeriad Tirwedd 6: Mynyddoedd Trefgarn a Plumstone

Lleoliad

Mae'r ACT hon yng ngorllewin Sir Benfro, yn ffinio â'r Parc Cenedlaethol tua'r gorllewin ger Niwngwl a Cheunant Trefgarn i'r dwyrain.





Yr olygfa dros Fynyddoedd Plumstone a Dudwell o'r gogledd



Yr olygfa ar Fynydd Trefgarn Fawr o'r dwyrain

Disgrifiad cryno

Mae'r ACT hon yn gefn ucheldirol donnog isel o rostir agored, brigiadau creigiog a nodweddion cynhanesyddol fel tumuli ym Mynyddoedd Plumstone a Dudwell a thir fferm ar Fynydd Trefgarn Fawr sy'n ffinio â Nant Nant-y-coi i'r gogledd-ddwyrain. Ar y llethrau mae tir pori amgaeedig gydag ychydig ddarnau o goetir bach byr ymysg y caeau lled-reolaidd ar rannau canol ac isaf y bryniau, gan gynnwys planhigfa gonifferaidd wedi'i rheoli i'r de orllewin.

Nodweddion allweddol

- Crib donnog agored o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n codi hyd at 175m AOD uwchben y llwyfandir amgylchynol tua 100m AOD gyda brigiad creigiog i'r gorllewin a llethr serth mewn mannau.
- Mae Nant-y-coi yn ymdroelli ar hyd ymyl ogledd-ddwyreiniol yr ACT.
- Creigiau folcanig igneaidd allwthiol Ordofigaidd caled Rhyolit yw'r ddaeareg sylfaenol yn bennaf i'w gweld ar frigiad Mynydd Plumstone a chwareli hanesyddol bach i'r gorllewin. Mae creigiau cyn-Gambriaidd yn gorwedd o dan y llethrau isaf.
- Ceir SoDdGA ym Mynydd Plumstone ac yn Nant-y-coi sy'n rhan o ACA Afonydd Cleddau.
- Cynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir gwlyb a phrysgwydd trwchus gydag ardaloedd o redyn ynghyd â dolydd glaswellt y gweunydd ar Fynydd Plumstone a Mynydd Dudwell
- Tir pori'n bennaf i'r dwyrain ac ar yr ymylon gorllewinol isaf gyda phatrymau caeau rheolaidd a lled-reolaidd yn awgrymu amgáu tir comin blaenorol, efallai o'r canoloesoedd, yn y 18fed ganrif neu'r 19eg ganrif.
- Mae diddordeb hanesyddol yn cynnwys pum crug crwn Mynydd Plumstone a rathlan amddiffynnol Plumstone, pob un ohonynt yn henebion cofrestredig, a chwareli ôl-ganoloesol. Mae'r rhain o fewn cyd-destun Castell Maiden a'r amddiffynfeydd cynhanesyddol

- eraill o amgylch Ceunant Trefgarn ychydig i'r dwyrain a chastell canoloesol y Garn i'r gorllewin sy'n ffurfio un pen i linell Landsger. I bob pwrpas mae'r ardal hon yn gorwedd yn fras ar y llinell hon ac **mae'r nodweddion yn rhoi ymdeimlad o le i'r ardal sy'n wahanol i'r wlad o amgylch.**
- **Nid oes unrhyw anheddiad nac adeileddau fertigol ar ben y gefnen sy'n arwain at orwel heb ei ddifetha ac mae'r gorchudd tir syml a'r llethrau yn gefndir syml i'r tirweddau is i'r gogledd a'r de.**
- Mae ffermydd gwasgaredig ac anheddau anghysbell yn gorwedd ar y llethrau isaf ac nid oes aneddiadau clystyrog nac adeiladau amaethyddol.
- Y patrwm ffyrdd yw lonydd sengl gyda wyneb a heb wyneb sy'n rhoi mynediad at ffermydd ac eiddo unigol ac i Fynydd Plumstone, gyda'r B4330 yn rhannu'r ardal o'r gogledd i'r de.
- **Mae Craig Plumstone yn dirnod adnabyddus yn lleol gydag ymdeimlad o le arbennig gyda ffocws ar hamdden gyda pharcio a mynediad i'r tir comin a golygfeydd eang sy'n tueddu'n naturiol i fod tua'r gogledd a'r de ar draws y llwyfandir bryniog amaethyddol is tuag at Aberdaugleddau.**
- **Mae golygfeydd allweddol i'r gorllewin tuag at Gastell y Garn a'r arfordir, i'r dwyrain i'r Preseli y tu hwnt i Gastell Maiden a Wolf Rock, golygfeydd pell ar draws ffermdir bryniog i Garn Fawr i'r gogledd ac i Garn Llidi ac ambell waith i Ynys Dewi i'r gogledd orllewin.**
- **Ymaith o'r meysydd parcio mae rhywfaint o dawelwch ac mae'r ardal gyfan yn teimlo'n agored y rhan fwyaf o'r flwyddyn.**
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal ar linell Landsger gyda newidiadau cysylltiedig rhwng rhannau Saesneg a Chymraeg Sir Benfro.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Mae colli pori ar rostir yn golygu colli cynefin i brysgwydd.
- Mae colli gwrthychoedd/cloddiau a gosod ffensys pyst a gwifrau yn eu lle yn arbennig o amlwg yn Nhrefgarn Fawr.
- Mae blocwaith modern ar ffermydd ac mewn mannau eraill wedi disodli deunyddiau traddodiadol, fel carreg mewn mannau.
- Blociau syth o blanhigfeydd conwydd i'r de orllewin.
- Mae parcio, cronfa ddŵr uwch a ffensys pren ym Mynydd Plumstone yn nodweddion anghydweddol mewn rhostir agored a lled-naturiol.
- Pwysau adloniant a mynediad ar rostir a all hefyd wrthdaro â defnydd yr ardal ar gyfer pori.
- Mae tyrbinau gwynt i'r gogledd a'r dwyrain ac maent yn arbennig o amlwg ar draws Ceunant Trefgarn.
- Mae anheddau anghysbell o'r 20fed ganrif yn brin o arddull brodorol lleol ac yn cyflwyno deunyddiau modern.

Canllawiau tirwedd

- Gwarchod y gweundir a rhostir agored ar Fynydd Plumstone trwy sicrhau bod pori er lles cadwraeth yn cael ei reoli'n dda a'i warchod.
- Cynnal ansawdd agored a digyffwrdd y gefnen a'i nenlinell, gan gadw natur fach bresennol y datblygiad adeiledig
- Ystyried sefydlu planhigfeydd llydanddail neu gymysg dros amser yn lle planhigfa gonifferaidd Causeway, a meddalau ymylon gyda choed llydanddail i wella golwg a gwella bioamrywiaeth.
- Annog pori traddodiadol i gynnal a gwella gwerth cadwraeth.
- Gwella a chyflwyno cysylltiadau rhwng cynefinoedd lled-naturiol o fewn a gerllaw'r

ardal trwy blannu gwrychoedd, gyda rhai coed ar lefelau is, a sefydlu pentalarau/coridorau llawn rhywogaethau mewn mannau.

- Rheoli mynediad hamdden i osgoi difrod i weundir a gwella dealltwriaeth o rywogaethau, cynefinoedd a threftadaeth archeolegol yr ardal.
- Osgoi adeileddau fertigol a datblygiadau eraill ar raddfa fawr fel siediau amaethyddol ar neu ger y nenlinell ac ar y llethrau uchaf.
- Gwneud gwelliannau i'r ffensys ac elfennau anghydweddol eraill ym Mynydd Plumstone i wella integreiddiad gyda'r dirwedd a rheoli mynediad.
- Osgoi datblygiad preswyl yn yr ardal wasgaredig hon gan gynnwys anheddau unigol ac ehangu Trefgarn.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACT 13 Nant y Brandy

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:



-

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:

Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearregol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
037 – cymedrol 031 – cymedrol	46060 - uchel 46199 - uchel 46200 - cymedrol	121 - uchel 132 – cymedrol 122 – cymedrol 114 – cymedrol	092 081	971 – cymedrol 421 - uchel 705 - uchel

Mae testun **italig trwm** yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Mae'r ACT hon i'r gorllewin o Hwlfordd ac mae'n ffinio â ffin y Parc Cenedlaethol i'r gorllewin â Bae Sain Ffraid y tu hwnt iddo. Mae'r A487 yn torri drwy'r ardal i gyfeiriad Tyddewi ac mae coridor Afon Cleddau Wen yn ffurfio'r terfyn i'r dwyrain.





Yr olygfa o'r A487 i'r gogledd-ddwyrain, gyda Mynydd Dudwell (ACT 6) yn y cefndir



Yr olygfa i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gorllewin o Portfield Gate.

Disgrifiad cryno

Mae'r ACT hon yn gyffredinol yn cynnwys tirwedd amaethyddol, fryniog o esgeiriau a brynau isel gyda chymoedd coediog bach yn britho. Ceir darnau o dir pori garw, prysgwydd a gweundir. Mae aneddiadau mwy yn tueddu i fod ar y cribau ac yn gysylltiedig â ffyrdd yn ymestyn o Hwlfordd. Mae ffermydd ac anheddau anghysbell yn britho'r ardaloedd tawel rhyngddynt. Mae'r ymyl gorllewinol yn gorwedd o fewn gosodiad y Parc Cenedlaethol.

Nodweddion allweddol

- **Cyfes o gribau dwyrain/gorllewin a llethrau bryniog crwn o 118m AOD ychydig i'r de o Fynydd Plumstone i 100mAOD yn Simpson Cross ac 88m AOD i'r dwyrain o Nolton Cross gyda chymoedd rhyngddynt - rhai ag ochrau cul a serth gyda gwaelodion cul fel Nant Camros yn disgyn i 10m AOD gerllaw lle mae'n cwrdd â'r Cleddau.**
- **Cymoedd nentydd dyfnion gydag ochrau serth, gwaelodion cul a pheth coetir a phrysgwydd** gan gynnwys Nant Camros, Knock Brook, Pelcomb Brook i'r gogledd a Nant Myrddin i'r de, y rhan fwyaf yn llifo i mewn i'r Cleddau.
- Y ddaear sylfaenol yw llechen Ordofigaidd gwaddodol i'r gogledd, carreg laid Carbonifferaidd i'r de, gyda band igneaidd ymwithiol cyn-Gambriaidd i'r de pellaf o amgylch Roman's Castle, a chymoedd nentydd yn llifo trwyddynt gyda dyddodion afonol yn bennaf i'r dwyrain.
- ACA Afon Cleddau ac Afon Cleddau ar hyd dyffryn SoDdGA Nant Camros a Mynydd Plumstone ym Mynydd Robleston i'r gogledd.
- **Tir amaeth bryniog o ansawdd uchel yn bennaf o laswelltir wedi'i wella ond gydag ardaloedd o dir â'r yn enwedig ar dir uwch gyda chymysgedd o batrymau caeau afreolaidd bach a rheolaidd mwy o faint a llain-gaeau creiriol (Wolfsdale).**
- **Ardaloedd sylweddol o laswelltir garw, glaswelltir corsiog, prysgwydd a gweundir, weithiau'n gysylltiedig â thir mynediad** fel gwlad agored Mynydd Robleston i'r gogledd, tir comin Keeston Moor i'r de o Simpson Cross a Mynydd Sutton i'r gorllewin o Hwlfordd, ac weithiau'n gysylltiedig â systemau afonydd.

- **Coetiroedd hynafol llinol a phrysgwydd ar hyd ochrau a gwaelodion cymoedd a choedlannau a phlanhigfeydd conwydd bach yma ac acw** ond mae gorchudd coed yn fwy cyfyngedig ar y llethrau uchaf ac ar gopaon y cribau.
 - Mae **pentrefi bach gwasgaredig** gydag estyniadau o'r 20fed ganrif yn tueddu i fod ar neu gerllaw llwybrau rheiddiol o Hwlfordd fel y Garn, Simpson Cross, Keeston, Pelcomb Cross ar yr A487, Dreenhill a Portfield Gate ond maent hefyd yn cynnwys aneddiadau mwy gwledig fel Camros a Wolfsdale. **Ceir ffermydd bach ar wasgar rhwng aneddiadau.**
 - Lleolir Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberdaugleddau i'r gorllewin o Hwlfordd yn Dreenhill.
 - **Mae tystiolaeth sylweddol o anheddiad a gweithgarwch defodol/angladdol cynhanesyddol** a henebion cofrestredig gan gynnwys Castell Keeston i'r gorllewin a gweddillion Roman Castle i'r de. Mae adeiladau rhestredig achlysurol iawn gyda'r ffocws mwyaf yng Nghamros a'r cyffiniau gan gynnwys Eglwys St Ismael a Thŷ a Melin Camros.
 - Mae'r llwybrau rheiddiol o Hwlfordd yn tueddu i ddilyn tir uwch gyda'r A487 a ffordd B yn rhedeg i'r gorllewin ac yn darparu golygfeydd agored i'r cymoedd cyfagos sy'n tueddu i gael eu gwasanaethu gan isffyrdd. Mae llwybr beicio cenedlaethol 4 yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r ardal ar ei ffordd i'r arfordir.
 - Mae tyrbinau gwynt canolig eu maint i'r dwyrain a thyrbinau llai wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal ond mae'r rhan fwyaf o nenlinellau cribau yn parhau i fod yn agored a heb eu difetha rhwng aneddiadau.
 - Mae'r cymoedd coediog yn gysgodol ac yn dawel yn enwedig i ffwrdd o'r ffyrdd.
 - **Mae bryniau a chribau agored yn bennaf i'r gorllewin, rhai yn ffurfio'r nenlinell, yn edrych dros yr arfordir a Bae Sain Ffraid, gyda golygfeydd o Ynys Dewi, mae'r ardal hon yn rhan o osodiad y Parc Cenedlaethol.**
 - Yn ddiwylliannol, mae'r ardal hon yn gorwedd ar Linell Landsger ac i'r de ohoni, (sy'n rhedeg o'r Garn a'i gastell tua'r dwyrain) ac mae'n ffurfio rhan o'r gwastadedd amaethyddol ehangach, bras o gymunedau Saesneg tua'r dwyrain a'r de'n arbennig.
- * **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Amaethyddiaeth dwys mewn mannau gyda gwrychoedd bylchog.
- Planhigfeydd conwydd mewn mannau.
- Ehangu aneddiadau yn yr 20fed a'r 21ain ganrif gyda thai o frics neu garreg ac wedi'u rendro'n aml.
- Llygredd golau lleol o amgylch aneddiadau.
- Tra bo dim ond ychydig o feysydd carafanau sydd yn yr ardal nodwedd, mae rhai mewn mannau uchel i gael y golygfeydd gorau i gyfeiriad yr arfordir a Mynydd Preseli. Fel arall, lleolir safleoedd teithiol bach i ffwrdd o'r arfordir.
- Pwysau am ddatblygiad hamdden pellach ychydig y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.
- Pwysau ar gyfer ynni adnewyddadwy gan gynnwys tyrbinau gwynt ac araeau solar.

Canllawiau tirwedd

- Cadw a gwella cloddiau a gwrychoedd gan ganiatáu i goed dyfu mewn mannau.
- Plannu coed llydanddail neu gymysg yn lle planhigfeydd conwydd.
- Gwarchod a gwella'r ardaloedd o laswellt garw, rhostir, prysgwydd a choetir i fanteisio i'r eithaf ar gysylltiadau mewn seilwaith gwyrdd.
- Rheoli'r broses o ehangu aneddiadau er mwyn osgoi datblygiadau rhuban ar gribau a'u lleoli islaw neu i ffwrdd o'r nenlinell a'u meddalau a'u lliniaru gyda phlannu priodol a chyfyngu/rheoli goleuadau.
- Rheoli meysydd carafanau a datblygiad hamdden yn unol â chanllawiau'r Sir.
- Lleoli ynni adnewyddadwy gan gynnwys tyrbinau gwynt ac araeau solar i ffwrdd o leoliad y Parc Cenedlaethol mewn lleoliadau cynnil ac osgoi effeithiau cronol andwyol.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACT9 Marloes
 ACT11 Ymyl Purfa Herbrandston
 ACT12 Porth Sain Ffraid
 ACT 13 Nant y Brandy

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM 21 Dyfroedd Arfordirol Dwyrain Porth Sain Ffraid

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:



Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
071 - cymedrol 072- uchel	46054 - uchel 43890 - uchel 46060 - uchel 46199 - uchel 48878 – rhagorol	129 – cymedrol 122 – cymedrol 125 – cymedrol 131 – cymedrol 130 – cymedrol 114 – cymedrol 121 - uchel 159- uchel	132	944 – cymedrol 943 - isel 807 - isel 942 - isel 971 – cymedrol 597 – cymedrol 400 – cymedrol 880 – cymedrol 502 – cymedrol 746 – cymedrol

Mae testun **italig trwm** yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 8: Hwlffordd

Lleoliad

Mae'r ACT hon ynghanol Sir Benfro ger ffyrdd yr A40, A487, a'r A477 ac mae yno hefyd orsaf reilffordd.





Y porth i ganol hanesyddol Hwlfordd dros



Man agored hamdden yn heneb gofrestredig y Prior's Garden
Merlin Brook

Disgrifiad cryno

Hwlfordd yw prif dref y sir ac mae ei chraidd hanesyddol wedi datblygu ochr yn ochr ag afon Cleddau Wen, yn gorwedd yn bennaf ar lethrau i'r gorllewin. Ymhlith y safleoedd hanesyddol mae adfail y priordy, y castell, y carchar a wrysau ar lan yr afon. Mae wedi datblygu'n sylweddol yn yr 20fed ganrif gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, datblygiadau preswyl a manwerthu. Hwlfordd yw canolbwynt seilwaith y sir gyda llawer o lwybrau cymudo'n cydgyfarfod yn y dref a rheilffordd sy'n rhoi ymdeimlad o symudiad iddi. Ceir coridorau gwyrdd cryf gan gynnwys y Cleddau ei hun a choridor Cartlett a Merlin Brooks gyda glaswelltir cysylltiedig a llethrau coediog serth i'r de.

Nodweddion allweddol

- **Mae Hwlfordd wedi'i lleoli ar lethrau dyffryn Cleddau Wen sy'n codi o 10m AOD i 45m AOD mewn blyffiau yn agos at yr afon sydd ar ffurf camlas i raddau helaeth ac 80m AOD ar ei bwynt uchaf ar y grib ger man agored y cae rasio segur i'r gorllewin.**
- Y ddaeareg sylfaenol yn bennaf yw creigwely carreg laid gwaddodol o siâl Silwraidd gyda dydoddion afonol yn gysylltiedig â'r afon.
- Mae Hwlfordd mewn lleoliad canolog strategol arwyddocaol yn gorwedd ar groesfan y Cleddau gyda chei a ddefnyddiwyd unwaith ar gyfer masnach drwy Aberdaugleddau. Mae wedi bod yn ganolfan fasnachol Sir Benfro a phrif dref y sir ers yr 16eg ganrif.
- **Mae Ardal Gadwraeth Hwlfordd yn gorwedd yn ei chanol bob ochr i Cleddau Wen gydag adeiladau ac adeileddau rhestredig cysylltiedig yr Hen Bont a'r Bont Newydd, adeiladau rhestredig ar hyd Stryd y Cei a Phriordy'r Santes Fair a Sant Tomos y Merthyr i'r de a'i lleoliad sy'n heneb gofrestredig. Mae heneb gofrestredig**

Y Castell ac eglwysi amrywiol yn gorwedd ar lethrau uchaf y dyffryn gyda strydoedd nodedig yn codi i fyny atynt, gyda'u hadeiladau rhestredig cain o'r 18fed a'r 19eg ganrif o gerrig a rendrad sy'n gweddu i brif dref sir. Mae rhan o'r dref ar gynllun stryd canoloesol gyda lleiniau bwrdais.

- Mae'r rhan fwyaf o'r dref yn rhan Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberdaugleddau.
- Mae'r dref wedi ehangu'n sylweddol yn yr 20fed ganrif gydag ystadau tai yn codi ar gefnau a llethrau dyffrynnoedd yn ogystal â thu hwnt i Merlin's Brook i'r de. Mae defnydd manwerthu, Coleg Sir Benfro, Ysbyty Llwynhelyg, a defnyddiau masnachol yn rhedeg i'r gogledd ar hyd yr A40 tua'r gogledd.
- **Mae gan ffryntiad hanesyddol y dref gyda Chleddau Wen ymdeimlad o le arbennig ac mae ei choridor yn cysylltu â choridoriau'r dyffryn gwyrdd i'r gogledd a'r de.**
- **Mae mannau agored pwysig eraill yn rhedeg drwy'r dref ac o'i chwmpas. Mae'r rhain yn cynnwys gwaelod dyffryn Merlin Brook gyda thir pori wedi'i led-wella ac sy'n cynnwys ochrau dyffryn serth a choetir cysylltiedig sy'n ffurfio ymyl pwysig ac amlwg i'r dref. Mae Nant Cartlett yn rhedeg mewn coridor cul i ymuno ag Afon Cleddau o'r dwyrain.**
- Mae ACA Afonydd Cleddau/ SoDdGA Afon Cladal yn cwmpasu Gorllewin Cleddau a Nant Cartlett.
- Atgyfnerthir lleoliad strategol y dref gan yr A40, A477 a'r A487 sy'n rhedeg i arfordiroedd y gogledd, y de a'r gorllewin, gan gysylltu â Chaerdydd i'r dwyrain. Mae'r ffordd osgoi i'r de-ddwyrain o'r dref yn rhedeg drwy ddyffrynnoedd Cleddau Wen a Merlin Brook gyda sŵn a symudiad cysylltiedig. Mae awyrennau sy'n defnyddio maes awyr Hwlfordd yn cyfrannu ymhellach at symudiad a sŵn yn ysbeidiol.
- Yn ddiwylliannol, gorwedd y dref i'r de o Linell Landsger ac mae'n rhan o Dde Sir Benfro Saesneg ei hiaith, a warchodir yn hanesyddol gan y castell.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Ehangu datblygiad i'r gogledd tuag at y Llwyn Helyg ac i'r de gan ymestyn dros Merlin Brook.
- Effaith ehangu datblygiad i'r gorllewin ar y nenlinell.
- Datblygiad coridor afon Cleddau ar ffurf camlas gan greu coridor caled.
- Moderneiddio neu golli adeiladau traddodiadol a dirywiad mewn adeiladau hanesyddol ar hyd glan yr afon.
- Seilwaith ffyrdd yn amlwg iawn ar ymyl dwyreiniol canol y dref.
- Ffyrdd prysur, llygredig a thraffig trwm drwy'r dref ac o'i chwmpas gyda ffyrdd osgoi newydd i'r gogledd, dwyrain a'r de ddwyrain.
- Daeth cryn lygredd goleuni o ddatblygiadau penodol a'r rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys eiddo masnachol a hanesyddol a gweithgareddau adloniadol.
- Colli marchnad wartheg ar faes Y Mart, gan bellhau'r dref o'i chefnwlad amaethyddol
- Pwysau ar goridoriau afonydd a darnau o brysgwydd a choetir sy'n cynnig gwerth i fywyd gwylt a seilwaith gwyrdd.
- Mae dylanwadau newid yn yr hinsawdd yn debygol o arwain at fwy o berygl llifogydd ar hyd coridorl yr afon ac i ganolbwynt masnachol y dref.

Canllawiau tirwedd

- Cadw a gwella mannau agored a seilwaith gwyrdd yn y dref yn enwedig coridoriau afonydd Cleddau, Merlin Brook a Nant Cartlett a mannau gwyrdd cysylltiedig a'r Cae Ras a chysylltu'r rhain â'i gilydd cyn belled ag y bo modd.
- Gwarchod a gwella'r ffurf adeiledig hanesyddol gan gynnwys adfywio eiddo adfeiliedig.
- Mynd i'r afael â gwrthdaro yn y symudiadau gan gynnwys sicrhau'r llwybrau cerdded gorau drwy ganol

y dref ac ar hyd yr afon.

- Cynllunio unrhyw estyniadau trefol gydag uwchgynllunio priodol a seilwaith gwyrdd i integreiddio estyniadau i'r dirwedd gan osgoi datblygiadau sy'n amharu ar y nenlinell fel i'r gorllewin ac ar hyd coridorau afonydd.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

Dim

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM33 Daugleddau

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:



Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
070 – isel	43878 – rhagorol 43903 - uchel 46054 - uchel 46209 – cymedrol	126 – isel 157 – cymedrol 131 – cymedrol 127 – cymedrol 129 – cymedrol 114 – cymedrol 178 – cymedrol 180 – cymedrol 186 – cymedrol	131	942 – isel 944 – cymedrol 512- cymedrol 807 - isel

Mae testun **italig trwm** yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 9: Gwastadeddau Johnston

Lleoliad

Mae'r ACT hon ynghanol Sir Benfro, i'r de o Hwlfordd, i'r gogledd o Aberdaugleddau ac i'r gorllewin o afonydd Cleddau a Daugleddau lle mae'n ymestyn hyd at derfyn y Parc Cenedlaethol.





Golygfeydd i'r de o Bolton Hill (i'r gorllewin o Johnstone)



Yr olygfa i'r de o ymyl Llangwm

Disgrifiad cryno

Mae'r ACT hon yn llwyfandir o fryniau a dyffrynnoedd coediog. Mae tir pori o safon uchel gyda chloddiau yn amlwg gyda rhywfaint o dir âr, glaswelltir garw a choetiroedd. Yn britho'r ardal mae aneddiadau pentrefol gwasgaredig a ffermydd y mae gan rai ohonynt gymeriad hanesyddol cryf fel Rhosfarcod neu Langwm wedi'u cysylltu gan lonydd gwledig tawel. Mae ffyrdd A prysur yn rhedeg o'r gogledd i'r de, yr A4076 a'r A477, rhwng Hwlfordd i'r gogledd ac Aberdaugleddau a Doc Penfro i'r de. Johnstone yw'r anheddiad mwyaf ac mae'n gartref i ddefnyddiau masnachol a diwydiannol/busnes. Mae'r ardal i'r dwyrain yn fwy tawel a gwledig ei chymeriad yn nes at y Cleddau Wen, Daugleddau a'r Parc Cenedlaethol. Purfeydd a thyrbinau gwynt a pheilonau mewn mannau a ffermydd solar sydd bennaf yn y golygfeydd i'r de orllewin i gyfeiriad yr Aber.

Nodweddion allweddol

- **Tirffurf bryniog o gefnau a dyffrynnoedd yn cynnwys cribau isel cyfochrog o'r dwyrain i'r gorllewin gyda'r uchaf tua 100m AOD i'r gorllewin a 90mAOD i'r dwyrain, yn disgyn i 14m AOD ger y Daugleddau o amgylch Hook a lefel y môr i'r de ger Bro Cleddau.**
- Mae'r ddaeareg sylfaenol yn gymhleth ac yn cynnwys bandiau o gerrig llaid Silwraidd a Charbonifferaidd o'r gogledd, craig igneaidd cyn-Gambriaidd ar draws yr ardal ganolog (sy'n dal i gael ei chloddio i'r gorllewin o Johnstone) a thywodfeini Defonaidd a Silwraidd i'r de, gyda mân ddyddodion rhewlifol drostynt.
- **Draeniad cymhleth gyda chysiau dŵr byr yn rhedeg i'r dwyrain i Daugleddau/ Bro Cleddau a nentydd hirach yn llifo tuag at Fae Sain Ffraid i'r gorllewin ac i'r de i Aberdaugleddau mewn dyffrynnoedd bach amgaeedig a chysgodol gydag ochrau coediog (rhaf serth) a gwaelodion cul, gan gynnwys rhywfaint o goetir hynafol.**

- **Mae Westfield Pill cysgodol a chlos i'r de o fewn ACA Sir Benfro/ Forol/SoDdGA Dyfrffordd Aberdaugleddau.**
- **Mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn dir ffermio cynhyrchiol o ansawdd uchel a reolir gan ffermydd gwasgaredig o laswelltir wedi'i wella gyda rhywfaint o dir â'r wedi'i osod mewn patrwm caeau cryf o gaeau afreolaidd a rheolaidd bach a chanolig eu maint, gan gynnwys ardaloedd o lain-gaeau canoloesol, wedi'u ffinio'n aml gan gloddiau a gwrychoedd wedi'u tocio'n dda.**
- **Mae tir fferm yn frith o flociau coetir llydanddail a chonifferaidd lled-naturiol, glaswelltir corsiog a garw, prysgwydd, nentydd a phyllau ar dir gwaelach.**
- Y prif anheddiad yw Johnston sy'n gysylltiedig â nifer o chwareli ac wedi'i leoli ar Ffordd Hwlfordd/Aberdaugleddau sydd gyda'r A477 yn ffurfio coridorau ffordd prysur gyda datblygiadau cysylltiedig.
- Mae tyrbinau unigol canolig eu maint a ffermydd solar mawr yn tueddu i fod yn gysylltiedig â'r coridor hwn neu i'r de orllewin.
- **I'r dwyrain daw'r ardal yn fwy tawel a gwledig gyda chyfres o aneddiadau pentrefol gwledig gwasgaredig fel Llangwm a Hook a nodweddir gan eu cydberthynas gweledol a ffisegol ag afon Daugleddau, gyda'r Parc Cenedlaethol yn ffurfio'r terfyn.**
- **Ceir nifer fawr o safleoedd archeolegol o bob cyfnod ac adeiladau rhestredig** gan gynnwys eglwysi Canoloesol, ac mae henebion cofrestredig yn cynnwys nodweddion amddiffynnol cynhanesyddol, canoloesol ac o'r 18fed ganrif.
- Mae yna henebion cofrestredig sy'n gysylltiedig â Rosemarket - y Rath a Chaer Bentir Fferm Jordanston ac Eglwys restredig Llanismel. Mae gan Llangwm Ardal Gadwraeth gydag Eglwys Sant Jerome yn adeilad rhestredig.
- Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Aberdaugleddau i'r de o amgylch Rosemarket ac i'r dwyrain yn ffinio ag Afon Cleddau.
- **Mae golygfeydd hyfryd i'r dwyrain o amgylch y Daugleddau ac yn y dyffrynnoedd caeedig fel o gwmpas Rosemarket a Westfield Pill. Mae potensial hefyd am olygfeydd ar draws y dirwedd gymharol agored ar dir uwch.**
- Mae golygfeydd tua'r de dan ddylanwad datblygiadau diwydiannol ac ynni adnewyddadwy, yn ogystal â pheilonau mewn rhai mannau.
- Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 47 yn rhedeg o'r gogledd i'r de, yn bennaf ar reilffordd sydd wedi'i datgymalu.
- Yn ddiwylliannol, gorwedd yr ardal hon i'r de o Linell Landsger ac mae'n rhan o dirwedd fugeiliol gyfoethog o gymunedau Saesneg De Sir Benfro.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Mae'r defnydd o adnoddau mwynol yn chwarel craig galed Bolton Hill yn parhau ac mae hen weithfeydd glo ar raddfa fach gynt wedi gadael eu hôl ar y dirwedd.
- Mae'r A4076 a'r A477 a'r rheilffordd yn croesi'r ardal ac mae'r ffurf yn ganolbwynt ar gyfer datblygu.
- Mae Hwlfordd a Johnston wedi ehangu'n sylweddol ac mae pwysau i barhau.
- Pwysau am ddatblygiadau pellach yn ymwneud ag ynni yn ogystal â phurfeydd a storfa LNG i'r de a thyrbinau gwynt, ffermydd solar a pheilonau o fewn yr ardal.
- Mae llygredd goleuni ymwithiol o gwmpas aneddiadau, yn enwedig mewn cyfleusterau ysgol ac adloniadol, o osodiadau ynni i'r de, chwareli a rhai ffermydd.
- Posiblwydd dwysáu amaethyddiaeth ar dir gwaelach yn enwedig tir gwlyb a dyffrynnoedd.

Canllawiau tirwedd

- Lleoli ynni adnewyddadwy gan gynnwys tyrbinau gwynt ac araeau solar i ffwrdd o leoliad y Parc Cenedlaethol mewn lleoliadau cynnil ac osgoi effeithiau cronol andwyol.

- Cadw a gwella cloddiau a gwrychoedd gan ganiatáu i goed dyfu mewn mannau.
- Gwarchod a gwella coridorau afonydd gyda choetir cysylltiedig mewn gwlad agored ac fel coridorau bioamrywiaeth trwy aneddiadau.
- Gwarchod a gwella'r ardaloedd o laswellt garw, rhostir, prysgwydd a choetir y tu allan i'r dyffrynnoedd i wneud y gorau o gysylltiadau mewn seilwaith gwyrdd.
- Rheoli ehangu aneddiadau i'r gogledd a'r de ac o fewn yr ardal er mwyn osgoi datblygu ar hyd y Cleddau Wen, ar gefnau a'u lleoli islaw neu i ffwrdd o'r gorwelion a'u meddalau â deunyddiau lliniaru plannu priodol.
- Osgoi unrhyw ddatblygiad sylweddol tua'r dwyrain ac yn arbennig o fewn gosodiad y Parc Cenedlaethol.
- Rheoli neu ehangu chwareli os oes angen fel bod y cloddiadau a'r seilwaith a'r goleuadau cysylltiedig wedi'u sgrinio'n dda ac nad ydynt yn weladwy iawn a'u hadfer i dirffurfiau naturiol lle bo modd, gan wneud y gorau o fioamrywiaeth.
- Lleihau llygredd golau pellach yn yr ardal.
- Dylid ystyried sut i ddefnyddio'n briodol adeiladau fferm hanesyddol a all fod yn dod i ddiwedd eu defnydd o fewn amaethyddiaeth.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

CT 28 Daugleddau

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACA32 Aberdaugleddau Mewnol- gorgyffwrdd â'r ardal

ACM33 Daugleddau- gorgyffwrdd â'r ardal

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:


Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
068 - cymedrol 114 - uchel 051 - rhagorol	46054 - uchel 43904- uchel 43903 - uchel 43896 - uchel 34879- uchel 43893 - uchel 46211 – cymedrol 43900 – cymedrol 43898 – cymedrol 43894 – cymedrol 43895 – cymedrol	159 - uchel 157 –cymedrol 127 – cymedrol 131 – cymedrol 158 – cymedrol 142 – cymedrol 162 – cymedrol 141 – cymedrol 166 – cymedrol	129 218	807 – isel 728- uchel 400 – cymedrol 342 – cymedrol 943 - isel

Mae testun *italig trwm* yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli

Ardal Cymeriad Tirwedd 10: Gogledd Cleddau

Lleoliad

Mae'r ACT hon ar lannau gogleddol Aber Cleddau. Nid yw'n cynnwys cylch trefol Aberdaugleddau ond mae'n cynnwys datblygiadau cysylltiedig ag olew a nwy i'r dwyrain a'r gorllewin a sawl anheddiad, yn fwyaf nodedig Neyland. Yr A477 a rheilffyrdd sy'n ffurfio'r terfyn gogleddol ac ymyl y dref neu'r aber sy'n ffurfio'r terfyn deheuol.





Golygfeydd i gyfeiriad hen Burfa Olew Murco o Stad Ddiwydiannol Thornton (ACT 22)



Y ffordd i'r de o Sentry Cross i Waterston

Disgrifiad cryno

Mae'r ACT hon yn cynnwys tir pori a thir â'r bryniog ynghyd â nifer o ddatblygiadau sy'n ymwneud ag ynni, yn amrywio o storffeydd olew a nwy ar raddfa fawr yn ymwneud â Dyfrffordd Aberdaugleddau i dyrbinau gwynt ac araeau solar. Mae'r patrwm anheddu yn wledig ac ar raddfa fach yn bennaf gyda rhai estyniadau o'r 20 fed/21ain ganrif ond mae anheddiad mwy Neyland yn gorwedd gyda'i farina i'r dwyrain ac mae tref Aberdaugleddau yn bresennol. Mae'r dyffrynnoedd coediog endoredig ar raddfa fach yn darparu tirweddau mwy clos o fewn ehangder ehangach y llwyfandir amaethyddol bryniog.

Nodweddion allweddol

- Mae'r topograffi bryniog yn codi o'r Ddyfrffordd gyda'i chlogwyni arfordirol isel a'i llethrau serth hyd at 70m AOD i'r gorllewin o Steynton ac mae dyffrynnoedd nentydd endoredig yn torri ar draws o'r gogledd i'r de, y mwyaf yw Hubberston Pill a Westfield Pill. Ceir nifer o ffynhonnau a phyllau bach ar draws yr ardal.
- Hen Dywodfaen Coch - tywodfaen gwaddodol Silwraidd yw'r ddaear yn bennaf.
- Mae SoDdGA Dyfrffordd Aberdaugleddau yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r arfordir a'r ardaloedd rhynglanwol ac mae ACA Sir Benfro Forol yn gyfagos yn union i'r de.
- Nodweddir ymyl yr arfordir gan glogwyni isel gyda llystyfiant naturiol gyda phrysgwydd arfordirol.
- Mae'r tir pori sydd wedi'i wella'n bennaf gyda pheth tir â'r wedi'i amgáu gan batrymau caeau nodedig gan gynnwys caeau llinellol mewn darnau fel i'r gogledd orllewin o Thornton ac i'r gorllewin o Honeybourne gyda phatrymau caeau afreolaidd hefyd yn amlwg wedi'u ffinio gan gloddiau a gwrychoedd.
- Mae coetiroedd hynafol yn gorwedd yn y dyffrynnoedd endoredig fel Westfield Pill ac o amgylch aneddiadau gwledig bach fel St Botolphs.
- Mae'r ardal bron yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Aberdaugleddau.
- Mae henebion cofrestredig yng Nghaer Scoveston sydd wedi'u lleoli ar godiad

uchel agored sy'n edrych dros y ddyfrffordd, clostir Castle Pill a Thornton Rath. Mae amryw o adeiladau rhestredig fel eglwysi.

- **Mae marina ac iard gychod Neyland ar hen gei diwydiannol yn ganolbwynt hamdden mawr ac mae'r glannau hygyrch yn rhoi golygfeydd eang o'r Ddyfrffordd a Bro Cleddau** yn ogystal â ffurf syml croesfan Pont Cleddau ar lefel uchel i'r dwyrain.
- **Saif Neyland ar lethrau prysglog serth uwchben y glannau gyda therasau traddodiadol cydlynol wedi'u paentio'n bennaf mewn lliwiau pastel a stryd fawr o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth.** I'r gorllewin mae'r anheddiad yn ffinio â'r ddyfrffordd ac yn codi i'r gogledd i fyny'r llethrau gydag ystod ehangach o ddefnyddiau, gan gynnwys diwydiant ysgafn a defnyddiau masnachol yn Honeyborough i'r gogledd o Ardal Gadwraeth y pentref.
- **Mae anheddiad llinellol traddodiadol Llanstadwell yn wynebu'r Ddyfrffordd gyda'i fythynnod a'i eglwys, gyda llethrau gwledig serth y tu ôl iddynt sy'n ffurfio bwlch gwyrdd rhwng datblygiad arfordirol.**
- **Mae bylchau erailol o dir pori gwledig agored yn yr arfordir datblygedig yn Gelliswick ac i'r dwyrain o Castle Pill.**
- **Mae aneddiadau llai yn dyddio o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif ac yn gryno ac yn llinellol eu cymeriad yn bennaf.**
- Mae tanciau storio Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) terfynell Waterston yn amlwg ar yr arfordir, gyda rhesi o dyrbinau gwynt cyfagos. Mae hen burfa Aberdaugleddau bellach yn derfynfa storio a dosbarthu petrolewm yn fewndirol i'r gorllewin gyda llawer o danciau storio lliw wedi'u sgrinio'n rhannol gan leiniau coed tra bod rhan o derfynell South Hook LNG i'r gorllewin.
- Mae cyfres o ddatblygiadau tyrbinau gwynt wedi eu gweithredu'n gynyddrannol mewn amrywiaeth o o feintiau, niferoedd a mathau, rhai mewn perthynas â'r safleoedd tir llwyd ac eraill mewn lleoliadau gwledig, sy'n cael effaith gronol gyfunol ar gymeriad y dirwedd ac sy'n weladwy iawn.
- Mae araeau solar hefyd wedi'u gweithredu'n gynyddrannol, yn enwedig i'r gorllewin (rhai y tu allan i'r ardal) ac yn cyfuno â'r tyrbinau gwynt a gosodiadau olew a nwy i ddylanwadu ar gymeriad y dirwedd yn lleol.
- Mae golau ar dyrbinau gwynt a gosodiadau diwydiannol fel staciau yn amlwg yn y nos, gyda golygfeydd pellgyrhaeddol ar draws Bae Sain Ffraid.
- Mae ymyl ogleddol yr ardal wedi'i ffinio gan ffyrdd A prysur a chysylltiadau rheilffordd rhwng gogledd a de ond mae gan ardaloedd rhwng datblygiadau gymeriad gwledig tawelach yn aml wedi'u hamgáu gan wrychoedd uchel a pheth coetir mewn mannau.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd y rhan fwyaf o Ddyfrffordd Aberdaugleddau gyda golygfeydd pell ar ei thraws ac ar ei hyd.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal ymhell i'r de o Linell Landsger a chymunedau Saesneg eu hiaith sy'n bennaf yn yr ardal.

* **Noder:** Mae testun trwm yn nodi nodweddion a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu fwyaf at ymdeimlad o le.

Newid tirwedd

- Gellid disgrifio cymeriad yr ardal fel tirwedd ynni ac o ganlyniad mae yno effeithiau cronol sylweddol.
- Mae cyfleusterau storio olew a LNG yn elfennau mawr o fewn yr ardal gyda goleuadau sylweddol yn y nos.
- Gallai'r gostyngiad posibl yn yr angen am danwydd ffosil effeithio ar y dirwedd gyda thrawsnewidiad i ddiwydiant carbon isel / di-garbon.
- Gall tyrbinau gwynt a gyflwynir yn gynyddrannol mewn amrywiaeth o fathau, graddfeydd a threfniadau gynyddu er y gallent wrthdaro â defnyddiau eraill.
- Mae ffermydd solar i'r gogledd hefyd yn nodwedd a gallant hefyd ehangu i'r ardal neu o leiaf addasu ei chymeriad.

- Pwysau i ddatblygu ymhellach i ymestyn cylchoedd adeiledig i gefn gwlad ond fe all fod gwrthdrawiad gyda thyrbinau presennol.
- Cynyddu cyfleoedd hamdden ac adloniant ar y ddyfrffordd a thrwy'r rhwydwaith teithio llesol.
- Cynnydd yn lefel y môr yn effeithio ar aneddiadau a datblygiadau eraill ar hyd y glannau fel yn Neyland a Llanstadwel.

Canllawiau tirwedd

- Rheoli datblygiad tyrbinau gwynt a ffermydd solar gan gydnabod yr effaith gronol gyfunol, diffyg cydlynid datblygiadau a chapasiti cyfyngedig yr ardal bellach.
- Rheoli datblygiad ar ymylon aneddiadau gan osgoi dyffrynnoedd endoredig sensitif, llethrau serth, gorwelion amlwg, coetir a phatrymau caeau hanesyddol.
- Sicrhau bod bwlch rhwng aneddiadau yn enwedig ar hyd y glannau.
- Rheoli coetir hynafol a llystyfiant arall ar lethrau serth ac ar hyd cyrsiau dŵr a chloddiau er mwyn gwneud y gorau o gysylltiad rhwng cynefinoedd.
- Ceisio diogelu treftadaeth ddiwylliannol ac archeolegol yr ardal a'i lleoliad ee Caer Scoveston a Castle Pill, a'i gwneud mor hygyrch i'r cyhoedd ag y bo modd.
- Gwarchod ardal y marina yn Neyland a gwylfa gysylltiedig dros yr Aber o'r maes parcio.

Ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACT 11 Ymyl Purfa Herbrandston

Ardaloedd cymeriad morwedd cyfagos y Parc Cenedlaethol:

ACM 32 Aberdaugleddau Mewnol- gorgyffwrdd â'r ardal

Ardaloedd agwedd a gwerth LANDMAP:

Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Ardaloedd Agwedd Tirwedd Hanesyddol	Ardaloedd Agwedd Ddaearegol	Ardaloedd Agwedd Gwasanaethau Tirwedd Ddiwylliannol	Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd Tirwedd
068 – cymedrol 078 - uchel 090 - isel 067 – cymedrol	43899- uchel 43879 - uchel 46054 - uchel 43890 - uchel 43881 - isel 43889 – cymedrol 43880 – cymedrol 43895 – cymedrol 43879 – cymedrol	142 – cymedrol 164 - uchel 162 – cymedrol 165 – cymedrol 167 – cymedrol 166 – cymedrol 165 – cymedrol 151 – cymedrol 152 - isel 156 - isel 143 - isel 161 - isel 163 – cymedrol 141 – cymedrol	129 170 224	943 - isel 425 - isel 342 – cymedrol 365 - uchel 602 - uchel 649 - isel 451 - isel 553 - isel 807 - isel

Mae testun *italig trwm* yn nodi'r brif ardal agwedd lle mae un yn bodoli